

FestivalUK*2022

COFNODION
PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG FESTIVAL 2022 LTD
("Festival")
9 am-11 am, Dydd Gwener 29 Ionawr 2021
Cynhaliwyd drwy Gyfarfod Microsoft
Teams

Aelodau:

Faraz Tasnim (FT) (Cadeirydd)	Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd
Amali de Alwis (AA)	Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd
Liam Hannaway (LH)	Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd
Roger Lewis (RL)	Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd

Arsyllwyr:

Vikki Heywood (VH)	Cadeirydd, Festival 2022 Ltd
Daniel Coles (DC)	DCMS
Greg Wilson (CBM)	Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Sonia Coates (SC)	Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Alison Breadon (AB)	PwC
Adam Richards (AR)	PwC

Yn bresennol:

David Grady (DG)	Prif Swyddog Ariannol y Grŵp, OC a Festival 2022 Ltd
Caroline McGrory (CMcg)	Ysgrifennydd y Cwmni a'r Prif Swyddog Cyfreithiol, Festival 2022 Ltd
John Darnbrook (JD)	Pennaeth Integreiddio Busnes, Festival 2022 Ltd
Phil Batty (PBa)	Cyfarwyddwr Gweithredol, Festival 2022 Ltd
Sarb Hair (SH)	Cydllynydd Gweithrediadau Corfforaethol, Festival 2022 Ltd (Ysgrifenyddiaeth)
Richard Pomfret (RP)	Uwch Reolwr Cyllid, Festival 2022 Ltd
Lucy Bailey (LB)	Uwch Gwnsler Cyfreithiol, Festival 2022 Ltd

Rhif	EITEM	PERCHENNOG Y CAM GWEITHREDU
A	<p><u>Pwyllgor ARAC Cyn Cyfarfod ag Archwilwyr Mewnol</u></p> <p>Agorodd FT y cyfarfod, a chadarnhaodd arsyllwyr a mynychwyr. Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams. Gofynnodd FT i bawb a oedd yn bresennol, ar wahân i PwC ac aelodau'r ARAC, adael y cyfarfod ac ymuno ar gyfer yr eitem nesaf ar yr agenda. Dechreuodd gweddill y meeting tua 30 munud yn ddiweddarach lle'r oedd yr holl fynychwyr, fel yr uchod, yn bresennol.</p>	
1.	<p><u>Cymeradwyo Materion sy'n Codi</u></p> <p>Cymeradwyodd yr ARAC gofnodion cyfarfod diwethaf ar yr ARAC a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2020.</p> <p>Trafododd yr ARAC y traciwr camau gweithredu, gan ofyn am eglurhad a diweddariadau gan gynrychiolydd perthnasol Festival, a diweddarwyd y camau gweithredu fel yr isod.</p> <ol style="list-style-type: none">1. Penodi Archwilydd Mewnol – Gofynnodd FT am y wybodaeth ddiweddaraf am y contract, cadarnhaodd DG ei fod wedi'i anfon at PwC ddoe ar gyfer eu llofnodwyr priodol. I'w gau ar ôl i'r contract gael ei ddychwelyd wedi'i lofnodi.2. Crynodeb o'r Llif Prosiectau Caffael i'w ddarparu ar gyfer cael gaffael ar fwy na £1m – Darparwyd y llif prosiectau caffael yn y cyfarfod. Cam gweithred wedi'i	DG

	<p>gau.</p> <ol style="list-style-type: none"> 3. Cwblhau'r ddarpariaeth o gwmselwyr cyfreithiol allanol a chomisiynu ymgynghoriaeth fusnes – rhoddodd CMgr ddiweddariad. Cam gweithredu wedi'i gau. 4. GW a FT i gyfarfod ar gyfer Trafodaeth Ragarweiniol - Ar y Gweill 5. Trosolwg o Broffil Ariannu Pedair Cenedl i'w ddsbarthu – Gweinyddiaethau Datganoledig i dynnu'r cyllid hwn i lawr eu hunain. PBa i drafod hyn gyda chynrychiolwyr y gwledydd. Cam gweithredu wedi'i gau. 6. Fframwaith Rheoli Risg i'w ddiweddarau gyda sylwadau ARAC ac adroddiad a ddarparwyd yng nghyfarfodydd ARAC yn y dyfodol – Darparwyd diweddariad llawn. Cam gweithredu wedi'i gau. 7. Y Bwrdd i gytuno ar ddatganiadau parodrwydd i gymryd risg erbyn mis Mawrth 2021, yn dilyn mewnbwn Diwrnod Strategaeth – Mae hyn yn mynd i'r Bwrdd ym mis Mawrth. Ar y gweill. 8. Traciwr Polisi'r Wyl i'w gynnal a'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i ARAC a Bwrdd Festival, gan gynnwys cyflwyno polisiau newydd i lywodraethu Festival i'w cymeradwyo - darparodd JD y traciwr i FT a VH cyn y cyfarfod. Cam gweithredu wedi'i gau. 9. Adolygiad o'r gweithdrefnau 'cyfweiliad ymadael' a 'methiannau agos' i'w cynnal – rhoddodd JD ddiweddariad yn y cyfarfod. Gofynnwyd am adroddiad ar gyfweiliadau dangosyddion perfformiad allweddol yn gysylltiedig â'r broses ymadael a'r methiannau agos ar gyfer yr ARAC nesaf. Ar y gweill 10. Darn o ohebiaeth ar gostau rhaglen ganolog DCMS i'w rhannu â'r ARAC – darparwyd diweddariad. Cam gweithredu wedi'i gau. 11. Y diweddaraf gan yr ARAC am y cynnydd o ran rhyddhau cyllid Festival i'r Gweinyddiaethau Datganoledig – a drafodwyd fel rhan o'r agenda. Cam gweithredu wedi'i gau. 12. RP i gyfarfod â chymheiriaid yn y Gweinyddiaethau Datganoledig / Cyrff Cyflawni Strategol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fonitro ariannol ar draws rhaglenni – nid yw hyn wedi'i gwblhau eto a bydd yn aros ar agor nes bydd y cyllid ar gael. Ar y gweill. 13. Trosolwg lefel uchel o broffil ariannu Festival i'w chynnwys yn y cynllun cyhoeddi, yn dilyn cynllunio cyfathrebu cydgysylltiedig – Ar y gweill. 14. Y sefyllfa'r dreth i barhau i gael ei hadolygu'n rheolaidd, gyda chamau penodol i geisio cyngor yn ymwneud â Rhyddhad Treth Theatr pan fydd y comisiynau terfynol yn hysbys. Ar y gweill <p>Gofynnwyd cwestiwn a oedd cyfweiliadau ymadael yn cael eu cynnal ar gyfer y timau aflwyddiannus? Cadarnhaodd PBa fod Martin yn cynllunio sesiynau adborth gyda phob un o'r 30 tîm ar y rhestr fer.</p> <p>Gofynnodd FT i'r cofnod camau gweithredu gael ei ddiweddarau gan gynnwys dwy golofn ychwanegol ar gyfer y cyfarfod nesaf: statws yn dangos camau gweithredu agored neu gaeedig a'r dyddiad cwblhau.</p>	<p>FT/GW</p> <p>PBa</p> <p>FT/VH</p> <p>JD</p> <p>RP</p> <p>DG/PBa</p> <p>RP</p> <p>SH</p>
<p>2.</p>	<p><u>Diweddariad Cyllid</u></p> <p>Amlinellodd RP sefyllfa ariannol blwyddyn Festival hyd yma ym mis Rhagfyr 2020 drwy'r adroddiad perfformiad ariannol a rannwyd drwy VBR.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaeth ar y gyllideb o £2.5 miliwn sy'n weddill, gan gynnwys pryd, sut a beth fydd hyn yn cael ei wario arno.</p> <p>Cafwyd trafodaeth bellach ar yr hyn sy'n digwydd os na fyddwn yn gwario'r gyllideb a ddyrannwyd. Cadarnhawyd nad oes proses ffurfiol ar gyfer cario drosodd gyllideb nas gwariwyd ond byddai'n golygu sgwrs gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae gan Festival drefniant ariannu grant gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon lle caiff y grant ei ddyfarnu a'i dynnu i lawr cyn bod ei angen a'i gysoni yn y cyfnod canlynol. Y dyddiad allweddol ar gyfer y Pwyllgor hwn yw 3 Mawrth</p>	

	<p>2021 gan y bydd hynny'n dweud wrth Festival yr union ffigur y bydd angen ei drosglwyddo i'r flwyddyn nesaf.</p> <p>FT a PBa i weithredu ar hyn ar wahân ar gyfer trafodaeth bellach.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ynghylch rheolaethau gwariant swyddfa'r cabinet a'r effaith y maent yn ei chael ar gyllideb cyfathrebu marchnata Festival.</p> <p>Cytunwyd y bydd angen i gyflwyniad Ian Reid ym mis Chwefror 2021 fod yn glir ynghylch y terfynau amser i'r lywodraeth gymeradwyo'r gyllideb hon.</p> <p>Mae'r oedi o ran recriwtio yn debygol o gynyddu ac mae angen ei adlewyrchu yn y gyllideb. Cadarnhawyd bod yna 17 o weithwyr Festival llawn amser ar ddiwedd mis Rhagfyr 2020, a bod ymgyrch recriwtio ar waith.</p> <p>Nododd ARAC y Papur Perfformiad Ariannol</p>	<p>FT/PBa</p> <p>PBa</p> <p>RP</p>
<p>3</p> <p>3.4</p>	<p><u>Polisiau Gwrth-Dwyll, Gwrth-lygriad, Llwgwrwbrwyo, Rhoddion ac Arian Rhodd</u></p> <p>Rhoddodd RP drosolwg o'r polisiau a ddsbarthwyd cyn y cyfarfod drwy VBR i'w cymeradwyo cyn mynd i'r Bwrdd.</p> <p>RP i adolygu adborth ar bolisi gwrth-dwyll gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.</p> <p>ARAC i feddwl am gyfrifoldeb lefel y Bwrdd am bolisiau.</p> <p>Cymeradwyodd ARAC y polisiau uchod</p> <p><u>Cynllun Gweithredu ar Dwyll 2021/22</u></p> <p>Rhoddodd RP drosolwg o'r cynllun gweithredu (a ddsbarthwyd cyn y cyfarfod drwy VBR) i ARAC wneud argymhelliad y bydd unigolion yn gyfrifol am y cynllun gweithredu ar dwyll. Trafododd yr ARAC a chytunodd i adlewyrchu'r un dull â'r OC, gydag argymhelliad i'r Bwrdd mai'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol yw'r perchennog risg ar lefel gyfatebol y Bwrdd fel dewis amgen i aelod o'r Bwrdd sy'n cymryd y rôl hon a CMcG yw'r arweinydd o ddydd i ddydd ar weithgareddau twyll.</p> <p>Mae FT wedi gofyn am greu traciwr hyfforddiant i sicrhau'r ARAC bod pob cyflogai wedi cael hyfforddiant priodol. Gofynnodd FT i'r traciwr gynnwys beth yw'r hyfforddiant a statws yr hyfforddiant.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ynghylch pennu £100,000 fel isafswm cyfanswm y colledion a'r taliadau arbennig i'w hadrodd. Cytunwyd y bydd pob achos o dwyll yn cael ei adrodd i ARAC a'r Bwrdd.</p> <p>Nododd ARAC y Cynllun Gweithredu ar Dwyll 2021/22</p>	<p>RP</p> <p>RP</p>
<p>4</p>	<p><u>Rheoli Risg</u></p> <p>Rhoddodd JD drosolwg o'r Risgiau Cyffredinol, gan gyflwyno sleid (a ddsbarthwyd cyn y cyfarfod drwy VBR) yn dangos tirwedd yr holl risgiau strategol sy'n cael eu rheoli ar hyn o bryd.</p> <p>Trafodwyd tabl Coch Oren Gwyrdd o'r 5 prif risg a sleid o'r risgiau newydd a nodwyd yn y cyfnod a nodwyd gydag ARAC yn fanwl. Trafodwyd y trefniadau llywodraethu o amgylch y gofrestr risg a'r defnydd ohoni.</p> <p>Bydd cyfarfod llawn y Bwrdd yn cael ei drefnu ar y risg o golli cefnogaeth y cyhoedd.</p> <p>Cafwyd trafodaeth am effaith Covid-19 a gofyniad i edrych ar yr effaith ar y sector</p>	<p>PBa</p> <p>JD</p>

	<p>diwylliannol a'r effaith ar gyflwyno Festival ar wahân. Cadarnhaodd DG fod Festival yn elwa ac yn dibynnu ar weithgarwch yr OC yn hyn o beth.</p> <p>Gofynnodd FT am ddiweddariad i'r iaith ar gyfer risgiau coch gael ei gwneud yn fwy difrifol a chlir.</p> <p>Cytunodd y pwyllgor i aralleirio risg 62.</p> <p>Nododd ARAC y papurau Rheoli Risg</p>	<p>JD</p>
<p>5.1</p> <p><u>Blaengynllun yr ARAC</u></p> <p>5.2</p> <p><u>Llif Prosiectau Caffael</u></p> <p>5.3</p> <p>Unrhyw fusnes arall</p>	<p>Mae cyfarfod nesaf yr ARAC ar 18 Chwefror 2021 yn gyfarfod pwrpas arbennig yn benodol i edrych ar bob un o'r 30 tîm, ac ar yr adeg honno bydd tîm Festival wedi gwneud dadansoddiad o bob tîm, gan nodi risgiau a gwariant allweddol.</p> <p>Rhoddodd JD grynoded o Llif Prosiectau Caffael Ch1 a Ch2 2021/22 (a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod drwy VBR). Penodwyd Marlon Trotman yn Rheolwr Contractau Busnes gyda Festival a bydd yn goruchwyllo'r rhan fwyaf o'r broses gaffael o dan £175k. Crëwyd Taflen Glyfar hefyd sy'n sail i'r llif prosiectau ac sy'n sicrhau bod Festival yn defnyddio'r un broses ar gyfer cyflawni a ddefnyddir ar draws yr OC i'w reoli a sicrhau ei gyflawni.</p> <p>Gofynnwyd am ddiweddariad rheolaidd ar y llif prosiectau caffael gyda statws Coch Oren Gwyrdd a sylwebaeth.</p> <p>Nododd ARAC y Llif Prosiectau Caffael</p> <p>Ni ddatganwyd unrhyw fusnes arall</p>	<p>JD</p>